SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

Cylchlythyr #12 SCHTh Gogledd Cymru – 27 Ionawr 2023
OPCC North Wales Newsletter #12 – 27 January 2023

Y CHTh yn cynnig praesept plismona is na'r gyfradd chwyddiant

Mae Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, wedi cyhoeddi y gwnaiff ofyn i'r Panel Heddlu a Throsedd gymeradwyo cynnydd is na'r gyfradd chwyddiant yn y praesept plismona. Mae hyn yn cyfateb i 31c yr wythnos (neu £16.29 yn flynyddol) ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. O ran canran, mae hyn yn golygu cynnydd o 5.14% yn y dreth gyngor ar gyfer eiddo band D ers llynedd. Bydd Mr Dunbobbin yn gwneud y cynnig i'r Panel Heddlu a Throsedd mewn cyfarfod ar 30 Ionawr 2023. Bydd yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Daw dros hanner yr arian ar gyfer cyllid yr heddlu yng Ngogledd Cymru o Lywodraeth y DU a daw'r gweddill oddi wrth Dreth y Cyngor. Mae'r swm yn dibynnu ar y praesept a osodir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Daw'r penderfyniad i ofyn am gynnydd o 31c yr wythnos yn dilyn ymgynghoriad ac arolwg a ddigwyddodd gyda phobl Gogledd Cymru dros chwe wythnos rhwng 5 Rhagfyr a 11 Ionawr, a oedd yn cynnwys dros 1,000 o ymatebion. **Darllenwch fwy yma.**

PCC proposes lower than inflation rate policing precept

Police and Crime Commissioner for North Wales, Andy Dunbobbin, has announced that he will ask the Police and Crime Panel to approve a lower than inflation rate increase in the policing precept. This equates to 31p per week (or £16.29 annually) for the financial year 2023-24. In percentage terms, this means a 5.14% council tax increase for a band D property on last year. Mr Dunbobbin will make the proposal to the Police and Crime Panel at a meeting on January 30, 2023, which will be live streamed on Conwy County Borough Council's website.

Around half the money for the police budget in North Wales comes from the UK Government and the rest comes from Council Tax. The amount depends on the precept levied by the Police and Crime Commissioner.

The decision to ask for an increase of 31p per week follows a consultation and survey that took place with the people of North Wales over nearly six weeks from 5 December to 11 January, involving over 1,000 responses. **Read more here.**

Y CHTh i ddechrau cymorthfeydd misol

Mae Andy Dunbobbin yn lansio cymorthfeydd misol i drigolion fel rhan o'i ymgyrch i ddod â phlismona yn agosach at bobl yr ardal. Bydd y fenter yn galluogi pobl leol i drafod plismona yn eu cymunedau ac i godi gofidion a sylwadau sydd ganddynt gyda'r Comisiynydd.

Bydd cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal mewn trefi a phentrefi, mewn ardaloedd gwledig a rhai trefol ar draws y chwe sir. Cynhelir y cyfarfodydd cyntaf yn nhrefi y Bala, Rhuthun, Pwllheli, Bangor a'r Bermo. Cyhoeddir lleoliadau eraill yn 2023 maes o law. **Darllenwch fwy yma.**

PCC to start monthly advice surgeries

Andy Dunbobbin is launching a new monthly advice surgery for residents as part of his mission to bring policing closer to the people of the region. The initiative will enable local people to discuss policing in their communities and to raise any concerns or comments they might have with the Commissioner.

A monthly meeting will be held in towns and villages across the North Wales area, both large and small, rural and urban, and right across the six counties. The first five locations have been announced as Bala, Ruthin, Pwllheli, Bangor and Barmouth. Further locations for the rest of 2023 will be announced in due course. **Read more here.**

Yr Uned Gyfathrebu'n cadw heddlu a thrigolion yn llawn gwybodaeth ac yn ddiogel

Mae'r Uned Gyfathrebu Pwynt Cyswllt Unigol, cydweithrediad newydd gan Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Swydd Gaer, wedi'i sefydlu, gan roi data cyfathrebu i'r ddau heddlu ar rota dydd a nos yn y frwydr yn erbyn trosedd. Mae 12 o staff cadarn bellach yn gallu prosesu a dyrannu gwybodaeth allweddol i Swyddogion Heddlu allan ar y ffordd ac yn y gymuned mewn modd mwy effeithlon.

Mae data cyfathrebu'n allweddol i ymchwilio troseddau. Mae'n galluogi'r heddlu i leoli a diogelu unigolion coll risg uchel bregus, ynghyd â chynorthwyo pobl sy'n profi trosedd ar waith. Enghreifftiau o ddata cyfathrebu a ellir ei rannu ydy gwybodaeth ar leoliad daearyddol teclyn symudol, ynghyd a chofnodion data galwadau a gwybodaeth o lwyfannau cyfryngau/apiau negeseuon. **Darllenwch fwy yma.**

Communications Data Unit keeps police officers informed and residents safe

The Single Point of Contact (SPoC) Communications Data Unit, a new collaboration by North Wales Police and Cheshire Constabulary, has been established, providing communications data to both forces on a 24/7 rota in the fight against crime. A total of 12 dedicated staff are now able to process and distribute key information to Police Officers out on the road and in the community in a more efficient manner.

Communications data (CD) is key to crime investigations. It enables police to locate and safeguard vulnerable high-risk missing persons, as well as assist people experiencing crime in action. Examples of CD that can be shared is information on the geographical location of a mobile device, as well as call data records and information from media platforms/messaging applications. **Read more here.**

Rhybudd Cymunedol

Cofrestrwch yma ar gyfer Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am droseddau, digwyddiadau, apeliadau, cyngor atal trosedd a gweithgareddau plismona cyffredinol yn eich ardal. Mae cofrestru yn rhad ac am ddim ac yn gyflym a syml.

Community Alert

Register here for North Wales Community Alert to receive up to date information about crime, engagement events, appeals, prevention advice and general policing activity in your local area. Registration is completely free, quick and simple.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy